

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid, 11 Mawrth, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#). [Insert link]

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg ond ni all Gadeirio'r cyfarfod yn llawn oherwydd anawsterau technegol); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg yn y Gadair); Cyngorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe a N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cyngorwyr G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan M. Evans (Aelod Lleyg)

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror, 2024 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. ARGYMHELLION ARCHWILIO CYMRU YNGHYLCH LLYWODRAETHU A'R GWASANAETH CYNLLUNIO (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y byddai unrhyw gylch gorchwyl a phrotocol cynllunio arfaethedig yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. DIWEDDARIAD CHWARTER 3 Y GOFRESTR RISG
GORFFORAETHOL (CX) –

PENDERFYNWYD –

(1) BOD sefyllfa Chwarter 3 o risgiau corfforaethol (Ebrill 2023 – Rhagfyr 2023) a amlinellwyd yn yr Adroddiad Cryno o Risgiau (Atodiad A), (gan gynnwys cynnwys y risg newydd yn ymwneud â Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru a dileu Brexit a Covid o'r Gofrestr), gael ei nodi.

(2) Y dylid hysbysu'r Cabinet o farn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â'r risg rheoleiddio caffael, i'r risg honno gael ei hystyried i'w chynnwys ar y Gofrestr neu o leiaf y dylid ychwanegu diweddariad ar yr adolygiad pan fo hynny'n briodol.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod y Cabinet yn derbyn sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wrth ystyried sefyllfa risg Chwarter 3.

EITEM AGENDA 6. PARTNERIAETH CYDWASANAETHAU ARCHWILIO
MEWNOL RHANBARTHOL (RIASS) 2024 (PGAMR) –

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad.

(2) BOD Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried y materion a nodir ym mharagraffau 2.3 a 2.4 gan gyfeirio at Atodiad 1 o dan Ran II o'r rhaglen.

Rhesymau dros yr argymhelliad

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Caniatáu i'r Pwyllgor ystyried adroddiad Rhan II.

EITEM AGENDA 7. MONITRO ARGYMHELLION (PGAMR) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â statws yr argymhellion uchel a chanolig a wnaed.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL WEDI'I
DIWEDDARU 2023/24 (PGAMR) -

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.
- (2) Cymeradwyo'r rhestr o eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 22 Ebrill, 2024.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

EITEM AGENDA 10. PARTNERIAETH CYDWASANAETHAU ARCHWILIO
MEWNOL RHANBARTHOL (RIASS) 2024 (PGAMR) (GWYBODAETH EITHRIEDIG
– PARAGRAFF 14) –

PENDERFYNWYD – BOD y Cabinet yn ystyried argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y dylai Cyngor Bro Morgannwg barhau i gynnal y trefniant Cydwasaethau a bod y Cyngor yn ymrwmo i Gytundeb Partneriaeth parhaus gyda phroses adolygu ffurfiol yn rhan ohono.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.